



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

**Croesyceiliog
Caerfyrddin
SA32 8DN**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Enw'r darparwr	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
Awdurdod lleol	Sir Gaerfyrddin
Iaith y darparwr	Cyfrwng Cymraeg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	928
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	743
Nifer yn y chweched ddsbarth (os yw'n berthnasol)	185
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd <i>(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector uwchradd dros y tair blynedd diwethaf yw 18.7%)</i>	4.2%
Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) <i>(Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector uwchradd yw 21.7%)</i>	10.2%
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref	70%
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad y penodwyd y pennaeth	01-01-2014
Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol)	16-11-2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn	28-03-2022
Gwybodaeth ychwanegol	

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd arno yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](http://gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei defnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cynnig amgylchedd ddysgu hynod o gadarnhaol ac ysgogol i'w disgyblion. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig a chartrefol lle mae anghenion emosiynol a iechyd meddwl pob disgybl yn flaenoriaethau parhaus. Mae yno berthynas weithio hynod agos a chynhaliol rhwng y staff a'r disgyblion.

Mae diwylliant gofalgwr yn yr ysgol sydd yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r cyfleoedd cyfoethog mae'r ysgol yn eu cynnig yn cefnogi'r dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, parchus sy'n cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae gan y disgyblion ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith ac mae ymddygiad bron bob un ohonynt o fewn y gwersi ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog. Mae'r rhinweddau hyn yn cyfrannu at y cynnydd buan y mae'r rhan fwyaf yn ei wneud yn eu gwersi. Mae gan ddisgyblion yn y chweched dosbarth fedrau rhyngpersonol aeddfed ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu dealltwriaeth ddofn o'r testunau maent yn eu hastudio.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gallu i fynegi eu hunain yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn gyffredinol, maent yn ymgymryd â thrafodaethau yn frwd ac yn gwrando ar safbwyntiau disgyblion eraill yn barchus.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Yn ogystal, ceir ystod eang iawn o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chorfforol gwerthfawr.

Mewn llawer o wersi, ceir addysgu effeithiol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn datblygu'u medrau a'u dealltwriaeth bynciol yn dda. Yn y gwersi hyn, ceir cynllunio gofalus sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn cynnig her briodol iddynt. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ddigon effeithiol nac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn ddigonol.

Mae arweinwyr yn raddol ailgydio yn eu prosesau sicrhau ansawdd er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb ac ar draws yr ysgol. O ganlyniad i gyfyngiadau o ganlyniad i'r pandemig, nid yw arweinwyr ar hyn o bryd yn defnyddio'r ystod iawn o ddulliau hunanarfarnu yn ddigon effeithiol nac yn arfarnu'r addysgu yn ôl ei effaith ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad doeth, synhwyrol a chefnogol i'r holl randdeiliaid. Mae hi'n gosod pwysigrwydd sylweddol ar feithrin ethos gofalgwr a chynhaliol. Mae arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn ymfalchïo yn eu rolau ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n ddiwyd. O ganlyniad i'r cryfderau hyn yn yr arweinyddiaeth, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ffynnu fel cymuned weithgar, gwaraidd a hapus.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod arweinwyr yn ailymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd trylwyr
- A2 Cryfhau gallu arweinwyr i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn sgil ei heffaith
- A3 Rhannu'r arferion cryf yn yr addysgu er mwyn cysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Ers dychwelyd i'w dosbarthiadau wedi cyfyngiadau'r pandemig, mae'r disgyblion wedi ailgydio â'u dysgu'n frwd. Mae eu hymagweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith wedi cyfrannu at y cynnydd buan mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei wneud yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol yn ogystal â'u medrau. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu penodol yn gwneud cynnydd da iawn o ganlyniad i gefnogaeth gref, gydlynus.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn datblygu'u gallu i'w gymhwyso i ystod o sefyllfaoedd yn fedrus. Er enghraifft, yn eu gwersi Cymraeg, maent yn adalw ffeithiau am brofiadau Hedd Wyn wrth ysgrifennu ymson milwr yn y Rhyfel Mawr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynegi eu hunain yn glir yn y Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu fel siaradwyr naturiol, rhugl. Mae'r rhan fwyaf yn gwrandao ar eu hathrawon yn astud. Drwyddi draw, mae geirfa gyffredinol a phwnc-penodol eang ganddynt. Pan gânt y cyfle, maent yn trafod syniadau â'i gilydd yn waraidd gan arddangos parch at farnau eraill. Yn eu gwersi Saesneg hefyd, mae'r disgyblion yn arddangos geirfa eang a'r gallu i fynegi eu barn yn glir. Mae lleiafrif y disgyblion yn cyfathrebu'u syniadau ar lafar mewn modd soffistigedig yn y ddwy iaith.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau darllen cryf. Pan gânt y cyfle, maent yn darllen yn uchel yn rhugl â mynegiant priodol. Gallant gywain gwybodaeth berthnasol o ystod o destunau'n fedrus a gall lawer syntheseiddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau i ddod at gasgliadau synhwyrol. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu canfod negeseuon sydd ymhlyg mewn testunau'n gywir. Maent yn defnyddio eu medrau trawsieithu i ddatblygu'u dealltwriaeth bynciol yn dda. Mae llawer o'r disgyblion yn medru darllen cerddoriaeth yn gywir a defnyddio'r medr hwn i berfformio darnau cerddorol yn gywain.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfleu eu syniadau'n glir mewn ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau. Maent yn trefnu'u gwaith i baragraffau'n rhesymegol ac ysgrifennu yn y Gymraeg neu Saesneg heb lawer o gamgymeriadau gramadegol neu wallau sillafu., gan arddangos geirfa gyffredinol a phwnc-penodol eang. Mae llawer o ddisgyblion yn ystyried y gynulleidfa'n ofalus, er enghraifft wrth ysgrifennu araith i ddarbwyllio pobl mai naill ai Greta Thurnberg neu Aneurin Bevan sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar gymdeithas.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau corfforol, er enghraifft drwy daflu a dal pêl wrth chwarae rownderi ac yn eu gwersi dylunio a thechnoleg wrth ymdrin ag ystod o offer. Yn eu gwersi cerddoriaeth, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i osod eu bysedd yn gywir ar allweddellau.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau creadigol cryf. Er enghraifft, yn eu gwersi drama, maent yn portreadu cymeriadau o'r gwaith 'Enwau' gan amrywio tôn eu llais, eu hosgo a'u mynegiant wyneb.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhif ac yn cymhwyso'r rhain mewn ystod o bynciau priodol. Maent yn cyflawni cyfrifiadau yn gywir wrth weithio gyda ffracsiynau a degolion. Mae llawer yn medru adeiladu a phlotio graff llinell ffit gorau'n gywir. Wrth iddynt symud i gyfnod allweddol 4, mae llawer yn datblygu medrau mwy datblygedig fel aildrefnu fformiwlâu a datrys hafaliadau cwadratig.

Yn y chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymwybyddiaeth ddofn o gysyniadau pynciol. Maent yn gallu cymhwyso rhain yn fedrus, er enghraifft wrth benderfynu os yw prawf ystadegol penodol yn briodol ar gyfer set o ddata. Yn gyffredinol, maent yn ddisgyblion huawdl sy'n mynegi eu hunain yn soffistigedig ac yn ymgymryd â'u gwaith ag egni.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles y disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn gryfderau amlwg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn manteisio ar y cyfleoedd eang sydd ar gael i ddysgu ac i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymdeimlad cryf ymysg y disgyblion o berthyn i 'Deulu Ysgol Bro Myrddin'. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddwyn yn barchus yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn groesawgar at ymwelwyr ac yn aeddfed yn y modd maent yn sgwrsio gyda nhw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn rhydd rhag bwlio a bod y staff yn ymateb yn amserol i'r achosion prin o hynny.

Mae ymddygiad gwaraidd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol amser egwyl ac amser cinio yn nodwedd arbennig. Er mai prin iawn yw'r achosion o gamymddwyn, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion iau yn talu digon o sylw yn y gwersi.

Mae llawer o ddisgyblion yn uchelgeisiol a medrus, maent yn dangos gwydnwch ac yn datblygu fel dinasyddion cyfrifol a hyderus. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol iawn at eu gwaith ac mae llawer yn ymgymryd â thasgau yn egniol ac yn frwdfrydig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n dda gydag eraill mewn parau a grwpiau, yn ymddwyn yn gyfrifol iawn wrth wrando ar eraill ac yn parchu barnau gwahanol. Mewn gwersi a chyfnodau cofrestru, maent yn barod iawn i fynegi barn ar broblemau'r byd, megis cynhesu byd eang, dwysedd poblogaeth a thrychinebau naturiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall sut i ddod yn unigolion iach a hyderus ac maent yn datblygu'u hymwybyddiaeth o sut i ofalu am eu hiechyd meddwl. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa wrth fynychu llu o weithgareddau allgyrsiol apelgar sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr iawn iddynt gymdeithasu â'u ffrindiau. Mae rhain yn cynnwys corau, clybiau amrywiol, cystadlaethau, eisteddfodau a chwaraeon.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i gymuned yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, maent yn cystadlu yn eu llysoedd i godi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Mae nifer uchel o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd gwerthfawr ar draws yr ysgol i fynegi barn ar eu haddysg a phrofiadau. Maent yn lleisio'u barn yn

effeithiol trwy'r cyngor ysgol, y fforymau lles, y pwyllgor eco a'r pwyllgor dyngarol ac yn cynnig syniadau synhwyrol i'r uwch-dîm arwain ar sut i wella'r ddarpariaeth.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn ymddwyn yn aeddfed ac yn gyfrifol iawn. Maent yn hynod groesawgar i ymwelwyr ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa'n sylweddol wrth ymgymryd â rolau arweinyddiaeth, er enghraifft wrth arwain cynghorau a grwpiau amrywiol, arwain llysoedd, a chael hyfforddiant i fentora a chefnogi disgyblion bregus.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

Addysgu a phrofiadau dysgu

Nodwedd gref o'r addysgu yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw'r berthynas waith ysgogol a chadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu awyrgylch gynhwysol, gartrefol a gweithgar yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gefnogol o'r disgyblion, yn annog eu cyfraniad a'u dyfalbarhad ac yn canmol eu hymdrechion.

Mae llawer o athrawon yn cynnig cyfarwyddiadau clir ac yn egluro cysyniadau mewn modd hwylus a medrus. Maent yn cynllunio tasgau cydlynus ac yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau atyniadol a buddiol i gefnogi'r dysgu. Maent yn herio'r disgyblion i ddarllen, chwilio a chanfod gwybodaeth yn annibynnol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson. Mae'r athrawon hyn yn rhoi arweiniad clir drwy enghreifftio gwaith sy'n cynnig arfer dda i ddisgyblion ei hefelychu. Mae tempo sionc mewn llawer o'r gwersi a disgwyliadau uchel gan yr athrawon o ran ymddygiad a chyflawniad y disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn tanio diddordeb y disgyblion gyda'u brwdfrydedd a'u hangerdd dros y pwnc. Maent yn cynllunio'n grefftus, ac yn darparu tasgau heriol sy'n ysgogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r athrawon hyn yn holi cwestiynau miniog a threiddgar sy'n symbylu'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach, ymestyn eu dealltwriaeth a chyfiawnhau eu safbwyntiau. Maent hefyd yn modelu arddulliau soffistigedig o ddatrys problemau fel y gall y disgyblion eu hefelychu a'u cymhwyso.

Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn enghreifftio atebion nac arferion da i sicrhau bod disgyblion yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ohonynt. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r athrawon yn holi'r disgyblion yn ddigon treiddgar i'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl. Maent yn dueddol o wirio gwybodaeth yn hytrach na phrocio a dyfnhau dealltwriaeth. Nid yw disgwyliadau ychydig o athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel. Maent naill ai'n cyflwyno tasgau ailadroddus, yn gor-reoli'r dysgu neu'n diystyrru cam-ynganu ac ymatebion sy'n frith o eiriau Saesneg.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ac adeiladol ar waith ac ymdrech disgyblion. Maent yn cylchu'r dosbarth yn ofalus i fonitro cynnydd y disgyblion, gan ymyrryd yn bwrpasol, lle bo angen. Mae mwyafrif yr athrawon yn

darparu adborth defnyddiol wrth nodi cryfderau a gwendidau darnau penodol o waith disgyblion yn eu llyfrau. Ar y cyfan, mae disgyblion yn ymateb yn foddhaol i'r cyngor hwn. Eto, yn gyffredinol, mae amrywiaeth yn ansawdd ac effeithiolrwydd sylwadau athrawon o fewn ac ar draws adrannau. Ar adegau, mae sylwadau naill ai'n rhy arwynebol, yn rhy hael neu nid ydynt yn rhoi digon o gyngor na chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wella eu gwaith. Mae'r ysgol yn treialu ffyrdd newydd o asesu ac mae adrannau yn dechrau arbrofi gyda'r dulliau newydd hyn.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n bwrpasol ei darpariaeth tuag at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Mae'r datblygiadau yn seiliedig ar weledigaeth glir sy'n ymgorffori barn disgyblion a rhanddeiliaid. Mae'r ysgol wedi dechrau cyflwyno rhaglenni a gwersi newydd a blaengar sy'n ymateb i ddymuniadau'r disgyblion. Er enghraifft, ceir gwersi iechyd a lles, addysg ariannol a chymorth cyntaf ac unedau o waith sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o agweddau gwleidyddol a phwysigrwydd pleidleisio. Mae'r ysgol yn dechrau arbrofi wrth ddatblygu addysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn gytbwys addas ac yn diwallu anghenion bron bob disgybl. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang ac addas o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas werthfawr gyda choleg lleol er mwyn cynnig cyrsiau fel amaethyddiaeth, peirianeg ceir, gwallt a harddwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg uwchradd lleol yn golygu bod yr ysgol yn gallu cynnig arlwy eang o gyrsiau i ddisgyblion y chweched dosbarth yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cynghori disgyblion yn effeithiol iawn i sicrhau eu bod yn dilyn y trywyddau sydd fwyaf priodol iddynt ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn y cyfnod clo, mae'r ysgol wedi cefnogi disgyblion unigol i adfer a datblygu eu medrau sylfaenol trwy raglenni ymyrraeth sy'n cynnwys sesiynau strategaethau adolygu i ddisgyblion hŷn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig profiadau gwerthfawr ac amrywiol i'r disgyblion mwyaf abl a dawnus, megis clwb dadlau Saesneg, prosiect creu murlun a chlwb dylunio a thechnoleg sy'n datblygu uwch brosesau gwneuthuro. Mae arlwy eang o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ymhellach.

Mae'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd yn cydweithio'n briodol gydag adrannau perthnasol i sicrhau bod dulliau cyson yn cael eu defnyddio mewn gwersi i ddatblygu medrau disgyblion. Mae rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar waith i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion penodol. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad gwerthfawr ychydig o ddisgyblion y chweched dosbarth fel mentoriaid rhifedd. Mae'r ysgol yn datblygu'u darpariaeth medrau digidol yn briodol. Mae hyn yn cynnwys mapio'r cyfleoedd ar draws y cwricwlwm ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth.

Nodwedd hynod o gryf yw'r modd mae'r ysgol yn datblygu a chyfoethogi medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog. Mae darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer datblygu Cymreictod disgyblion, eu dealltwriaeth a'u balchder o ddiwylliant Cymreig. Mae'r pwyllgor 'Torri Arfer' wedi'i sefydlu yn dilyn y cyfnod clo er mwyn hyrwyddo siarad Cymraeg ac mae gweithgareddau creadigol a chyffrous fel 'Maes B bach' yn ychwanegu at yr arlwy o brofiadau.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn briodol a chynhwysfawr ac yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfoes drwy unedau fel, 'Bwlian neu

Banter?', 'Cymreictod' a 'Hunan-ddelwedd'. Mae'r ysgol yn datblygu unedau gwerthfawr o waith ar hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac yn trafod materion lleol. Yn eu plith, mae gweithgaredd trafod ar y cwestiwn 'A ddylai fod cofeb i Thomas Picton yng Nghaerfyrddin?' Mae'r rhaglen ABCCh yn cael ei gwerthuso'n gyson ac mae disgyblion yn dylanwadu ar gynnwys eu gwersi. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ehangu ar y cyfleoedd i drafod materion LHDTTC+ ar gais y disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn gymuned ofalgar sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob disgybl yn gryf. Mae'r staff yn coleddu'r blaenoriaethau hyn ac yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch buddiol. Mae'r trefniadau bugeiliol cryf yn cefnogi'r diwylliant hwn ac yn cyfrannu at ddatblygu disgyblion huawdl a chwrtais sydd yn cynrychioli'r ysgol gyda balchder.

Mae gan yr arweinwyr bugeiliol adnabyddiaeth arbennig o anghenion dysgu a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio darpariaeth les gynhwysfawr sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth bwrpasol mewn gwersi ac mewn gweithgareddau eraill i fagu hyder a gwydnwch disgyblion. Yn ogystal, yn dilyn y cyfnod clo, mae disgyblion penodol wedi elwa o weithgareddau i drafod eu hemosiynau er mwyn datblygu agwedd gadarnhaol a hunanreolaeth.

Trwy wrando ar lais disgyblion, mae'r ysgol wedi adnabod yn dda yr heriau cymdeithasol maent yn eu wynebu. Ar ben hyn, maent yn cynllunio'n fwriadus raglen ABCCh a phrofiadau gwerthfawr yn y cwricwlwm i hyrwyddo diwylliant lle mae disgyblion yn parchu ei gilydd ac yn dangos empathi. Er enghraifft mae disgyblion yn trefnu digwyddiad dyngarol 'Cystadleuaeth Lipsync' i godi arian ar gyfer yr Wcrain. Yn ogystal, wrth ymateb i bryderon disgyblion, mae'r ysgol wedi cynllunio'n ofalus sesiynau gwerthfawr i gefnogi eu lles trwy gynnal diwrnod iechyd meddwl a sesiynau datblygu gwytnwch.

Mae gan y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) adnabyddiaeth gadarn o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae proffiliau un dudalen disgyblion yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i staff er mwyn cefnogi'r disgyblion hyn. Mae staff yn cynllunio ymyraethau gwerthfawr i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac mae trefniadau cryf i olrhain cynnydd y disgyblion hyn. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth hon er mwyn gwerthuso ansawdd ac effaith y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion hŷn yr ysgol arwain gweithgareddau sy'n dathlu treftadaeth Gymreig. Mae'r 'Pwyllgor Dyngarol' yn rhoi cyfle i ddisgyblion hŷn yr ysgol gymryd cyfrifoldeb ac arwain gweithgareddau dyngarol. Mae cyfle i ddisgyblion ymgymryd â'r diwylliant Cymreig ac ymfalchïo ynddo trwy gymryd rhan mewn sioeau cerdd megis 'Un Heol Penlan' a thrwy gystadlu mewn eisteddfodau ysgol a chenedlaethol.

Mae cyngor yr ysgol yn cwrdd yn gyson er mwyn trafod sut i wella'r ysgol, er enghraifft trwy ddatblygu'r ardaloedd 'Panedini' a 'Blas Tu Fas'. Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol wedi datblygu Fforwm Lles er mwyn sicrhau bod cyfle i amrywiaeth

ehangach o ddisgyblion leisio eu barn am yr ysgol. O ganlyniad i gyfnod clo'r pandemig, mae'r ysgol wedi datblygu system werthfawr lle mae disgyblion yn gallu hysbysu staff am bryderon mewn ffordd ddienw.

Mae gweithredoedd priodol ar gyfer addoli ar y cyd a gwasanaethau wythnosol sy'n cyflwyno agweddau crefyddol a moesol. Yn ogystal, mae rhaglen o wasanaethau rhithiol gwerthfawr yn sicrhau neges foesol ar destunau amrywiol megis dyfalbarhad, annog ein gilydd a pharchu gwahaniaethau.

Mae systemau monitro a hybu presenoldeb yr ysgol yn effeithiol. Yn dilyn y cyfnod clo, mae prosesau pwrpasol i ailintegreiddio disgyblion penodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol er mwyn rhoi cefnogaeth i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a'r cynghorydd gyrfaedd er mwyn cynnig cyngor personol i bob disgybl wrth iddynt symud ymlaen i'r cyfnod nesaf.

Mae trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn ac mae staff yn deall eu rolau wrth ymgymryd â threfniadau diogelu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, llewyrchus a llesol i'r holl ddisgyblion a staff. Rhoddir pwyslais cryf ar arddel a dathlu Cymreictod a threftadaeth Gymreig o fewn cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach, ynghyd â dathlu llwyddiannau disgyblion. Mae'r pennaeth yn cyfathrebu ei gweledigaeth ac amcanion yr ysgol yn huawdl ac yn gyson gyda'r holl randdeiliaid. Mae hi'n weledol ac yn ddylanwadol o gwmpas y safle ac yn fodel rôl gwych. Fe'i chefnogir yn effeithiol gan weddill yr uwch dîm arwain.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel o ymddygiad ac ymroddiad proffesiynol ar gyfer staff, disgyblion a'u hunain ac mae hyn yn cyfrannu at y naws deuluol gref o 'Deulu Bro Myrddin'. Rhoddir cefnogaeth gyson i les staff, er enghraifft trwy gyfarfodydd rheolaidd y pwyllgor lles staff. Elfen nodedig o gefnogaeth i'r staff yw'r galwadau ffôn personol gan y pennaeth i bob aelod o staff yn ystod cyfnodau clo dros amser y pandemig.

Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas agos a chynhaliol gyda rhieni ac mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu negeseuon a gwybodaeth fuddiol yn aml a rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys llythyrau wythnosol i rieni a gwybodaeth gynhwysfawr ar wefan yr ysgol. Mae llwyddiant y cyfathrebu hwn yn nodwedd eithriadol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw cryf i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft trwy gyflogi swyddog ymgysylltu teuluol i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol y pandemig ac i leihau effaith tlodi ac amddifadedd cymdeithasol ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Mae arweinwyr yn paratoi'n bwrpasol i ddatblygu'r Cwricwlwm I Gymru ac yn symud yn bwyllog a synhwyrol tuag at weithredu'r Cwricwlwm o Fedi 2022. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n bwrpasol i adfer a chryfhau medrau Gymraeg disgyblion yn dilyn y pandemig. Mae hyn yn cynnwys datblygu medrau'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn yr ysgol. Er enghraifft, ceir cyfleoedd ardderchog i ddisgyblion gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhelir cyfarfodydd rheoli llinell cyson sy'n sicrhau cyfathrebu buddiol rhwng staff a'u rheolwyr. Gan amlaf, mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys trafodaethau addas ar faterion gweithredol ac ychydig o elfennau pwysig am safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r elfennau hyn yn cael sylw digon cryf ar draws yr holl gyfarfodydd rheolaethol.

Rhoddir cefnogaeth briodol i staff ddatblygu yn eu rolau ac i gael profiadau rheolaethol ychwanegol pan fydd cyfleoedd yn codi. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas, ar y cyfan. Er enghraifft, rhoddir cefnogaeth hael i staff ddilyn eu dyheadau personol trwy wneud ymchwil gweithredol mewn maes sydd o ddiddordeb iddynt. Serch hyn, mae anghysonderau yn y drefn rheoli perfformiad. Nid yw ychydig o amcanion yn ddigon miniog ac, yn y mwyafrif o achosion, nid yw'r trefniadau monitro a gwerthuso yn ddigon cadarn.

Mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Maent yn angerddol dros yr ysgol ac yn coleddu'r gwerthoedd a'r dyheadau a gyfathrebir gan y pennaeth. Maent wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach a chyfleoedd digonol ar gyfer ymarfer corff. Mae'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r bwrsar yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus iawn. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ddoeth ac yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion.

Yn ystod cyfnod y pandemig, aeth yr ysgol ati i gaffael barn disgyblion, rhieni a staff yn rheolaidd am addasrwydd ac ansawdd y gwersi ar-lein. Arweiniodd hyn yn fuddiol at addasu trefn y diwrnod a sicrhau gweithgareddau i hybu lles disgyblion. Yn dilyn dychwelyd i'r ysgol, mae rheolwyr ac athrawon wedi parhau i holi barn disgyblion, rhieni a staff, er enghraifft wrth ystyried eu barn am barhau â nosweithiau rhieni ar-lein. Mae'r ysgol wedi adnabod blaenoriaethau gwella priodol sy'n seiliedig ar y dystiolaeth o'r gweithgareddau hyn a gwybodaeth o brosesau sicrhau ansawdd yn y cyfnod cyn y pandemig.

Yn raddol, mae'r ysgol yn ailgydio yn ei gweithdrefnau sicrhau ansawdd er mwyn cynnwys ystod lawnach o weithgareddau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i reolwyr canol graffu ar waith disgyblion a thrafod gyda'u rheolwyr llinell ynghyd â chyfleoedd i holi barn disgyblion. O ganlyniad i gyfyngiadau yn sgil y pandemig, nid yw arweinwyr ar hyn o bryd yn defnyddio'r ystod lawn o ddulliau hunanarfarnu yn ddigon effeithiol nac yn arfarnu'r addysgu yn ôl ei effaith ar safonau a chynnydd disgyblion. Golyga hyn nad oes ganddynt ddarlun llawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn ystyried ansawdd yr addysgu yn ôl ei effaith ar gynnydd y disgyblion yn eu gwersi.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o hyfforddiant i athrawon gan gynnwys cyfleoedd i fynychu cyrsiau gan ddarparwyr allanol, er enghraifft i gefnogi datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae staff cymorth yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu medrau penodol sy'n ymwneud â'u rolau. Yn ogystal, mae profiadau gwerthfawr i staff ddatblygu eu medrau arwain trwy gysgodi arweinwyr eraill a chwblhau secondiadau mewnol ac allanol. Serch y cyfleoedd hyn, nid yw'r ysgol pob amser yn cynllunio'n ddigon strategol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau gwella a nodir yn y cynllun datblygu.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.gov.wales/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.gov.wales/>

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 06/06/2022